

Dyddiad: 2020

Arolwg Omnibws Cymru 2019 – Oedolion a’r Celfyddydau

Cyflwyniad

Ers 1993 mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnal arolwg blynyddol o’r boblogaeth am fynychu’r celfyddydau a chymryd rhan ynddyn nhw. Drwy gyfres o gwestiynau yn Arolwg Omnibws Cymru gan Ymchwil Beufort Cyf ym mis Tachwedd, rydym ni’n casglu gwybodaeth am fynychu digwyddiadau celfyddydol ac am gymryd rhan mewn gweithgareddau artistig. Mae o leiaf 1,000 o gyfweliadau’n cael eu cynnal bob blwyddyn gyda sampl wedi’i llunio i fod yn gynrychioliadol o’r boblogaeth sy’n byw yng Nghymru sy’n 16 oed a hŷn.

Dyma grynhoi’r data diweddaraf am fynychu a chymryd rhan ymhlith oedolion ac yn ôl grwpiau demograffig allweddol.

Canlyniadau Allweddol


Mynychu Digwyddiadau Celfyddydol

Ers 2006 rydyn ni’n gofyn i bobl ynghylch mynychu gan ddefnyddio rhestr gyson o 14 celfyddyd¹. Mae’r graff ar y dudalen nesaf yn dangos cyfran yr oedolion sy’n byw yng Nghymru a fynychodd o leiaf un o’r 14 celfyddyd o leiaf unwaith y flwyddyn dros y deuddeg mlynedd diwethaf.

Meddai 86.8% o’r oedolion a holwyd yn 2019 iddynt fynychu o leiaf un digwyddiad celfyddydol y flwyddyn. Mae’r data hwn yn gynydd o 2.2 pwynt canran mewn lefelau mynychu o gymharu â’r flwyddyn flaenorol.

¹ Dyma’r 14 celfyddyd: sinema; sioe gerdd (nid opera); opera; bale; dawns gyfoes; drama, cerddoriaeth glasurol (cyngerdd/datganiad); jas (cyngerdd/perfformiad); cerddoriaeth werin / draddodiadol / y byd; cerddoriaeth fyw arall; oriel gelf/crefft neu arddangosaf; darlleniadau / adrodd stori a digwyddiadau llenyddol arall; carnifal a chelfyddyd y stryd; gŵyl gelfyddydol (er enghraifft, cerddoriaeth, dawns, drama, llenyddiaeth).

Mynychu'r Celfyddydau 2009-2019: y duedd dros ddeng mlynedd (% sy'n mynychu unrhyw un o'r 14 math o gelfyddyd unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: Pob oedolyn (o leiaf 1,000 y don)

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

- Wrth dynnu sinema o'r dadansoddiad, meddai ychydig dros 8 o bob 10 oedolyn (82.4%) a holwyd iddynt fynd i ddigwyddiad celfyddydol. Mae hwn yn gynydd bach o'i gymharu â 79.6% y flwyddyn flaenorol.
- Mae mynychu'r celfyddydau yn 2019 yn parhau i fod yn gysylltiedig â dosbarth cymdeithasol. Mae'r rhai yng ngrŵp uwch ABC1 (gweithwyr proffesiynol, cymwys a'r rhai nad ydynt yn gweithio â'u dwylo) yn debycach o fynd i'r celfyddydau na'r rhai yng ngrŵp is C2DE (gweithwyr llaw crefftus, lled-grefftus a di-grefft a phobl ddi-waith). Gwnaeth 93.2% a 79.9% yn eu trefn fynd i ddigwyddiadau celfyddydol yn 2019.
- Er y bu cynnydd bach yn lefelau mynychu grŵp ABC1 o 4.4 pwynt canran, arhosodd grŵp C2DE yn sefydlog ar 80%.

Mynychu'r Celfyddydau yn ôl Gradd Gymdeithasol (% yn mynychu unrhyw fath o gelfyddyd unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: Pob oedolyn (o leiaf 1,000 y don)

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019


- Mae oedolion yn y grŵp oedran ieuengaf, 16-24 oed, yn debycach o fynychu'r celfyddydau yn 2019 nag unrhyw grŵp oedran arall, gyda 94.2% yn mynychu unwaith y flwyddyn neu fwy. Mae hyn yn cymharu â 75.9% o'r rhai dros 65 oed. Serch hynny, y grŵp oedran hynaf (65+) a welodd y cynnydd mwyaf o gymharu â'r flwyddyn flaenorol – cynnydd o 5.4 pwynt canran.
- Mae'r bwlch mewn lefelau mynychu rhwng y rhywiau wedi cynyddu yn 2019 i 4.4 pwynt canran o 2.2 pwynt canran yn 2018. Mae mwy o fenywod na dynion yn parhau i fynychu digwyddiadau celfyddydol yn 2019 gydag 88.9% yn gwneud hynny o leiaf unwaith y flwyddyn o gymharu ag 84.5% o ddynion.
- Fel yn y flwyddyn flaenorol, rhanbarth Canolbarth y De sydd â'r lefelau uchaf o fynychu'r celfyddydau gydag 89.1% yn mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn. Yr unig ranbarth i brofi gostyngiad oedd rhanbarth y De-orllewin, lle bu gostyngiad o 0.4 pwynt canran i 83.8% yn 2019.
- Mae cynnydd yn y lefelau mynychu ymhlith siaradwyr Cymraeg yn 2019 i 92.3% o 86.9% yn y flwyddyn flaenorol yn golygu bod y bwlch rhwng siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg wedi cynyddu. Bu cynnydd o 1 pwynt canran yn y lefelau mynychu ymhlith pobl ddi-Gymraeg o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r bwlch rhwng y ddau grŵp wedi cynyddu o 2.9 pwynt canran yn 2018 i 7.3 pwynt canran yn 2019.
- Aeth 60.0% o'r holl oedolion a holwyd i'r sinema yn 2019 gan olygu mai dyma'r gelfyddyd fwyaf poblogaidd o ran ei mynychu unwaith yn rhagor. Fel yn y gorffennol, y gelfyddyd fwyaf poblogaidd wedyn yw cerddoriaeth fyw 'arall' (49.9%), wedyn carnifal / celfyddyd y stryd (46.2%) ac wedi hynny dramâu (35.8%).

Cymryd rhan yn y celfyddydau

Mae rhestr gyson o saith celfyddyd² i gymryd rhan ynddyn nhw wedi'i chynnwys yn yr arolwg ers 2009. Mae'r graff isod yn dangos lefel y cymryd rhan mewn o leiaf un o'r celfyddydau yma dros y naw mlynedd diwethaf.

- Mae hanner yr holl oedolion (49.3%) a holwyd yn 2019 yn dweud iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Mae hyn wedi cynyddu 3.7 pwynt canran o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Canran oedolion Cymru sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach (7 math o gelfyddyd)




Sail: Pob oedolyn (o leiaf 1,000 y don)

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2009-2018

- Fel yn achos mynychu'r celfyddydau, mae cymryd rhan yn y celfyddydau hefyd yn gysylltiedig â gradd gymdeithasol. Yn 2019, roedd 53.0% o oedolion ABC1 wedi cymryd rhan yn y celfyddydau o gymharu â 41.0% o rai C2DE. Ychydig iawn o newid a fu yn y bwlch rhwng y ddau grŵp cymdeithasol yn 2019 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda bwlch o 12.0 pwynt canran.

² Dyma'r saith celfyddyd: cerddoriaeth; drama neu weithgarwch theatr; dawn; ffilm, fideo neu ffotograffiaeth; y celfyddydau gwledol a chrefftau; ysgrifennu creadigol; y celfyddydau digidol.

Cymryd Rhan yn y Celfyddydau yn ôl Safle Cymdeithasol
 (% sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: Pob oedolyn (o leiaf 1,000 y don)

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

- Meddai hanner (51.9%) yr ymatebwyr 16-24 oed iddynt gymryd rhan mewn digwyddiad celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn. Dyma'r grŵp sydd â'r lefel uchaf o gymryd rhan. Ond dyma'r unig grŵp oedran a welodd ostyngiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 5.3 pwynt canran. Y grŵp oedran â'r cynnydd mwyaf ers 2018 oedd y rhai 45-64 oed a welodd gynnydd o 8.2 pwynt canran.
- Fel yn y gorffennol, roedd mwy o fenywod na dynion yn cymryd rhan yn y celfyddydau yn 2019 – 52.3% a 46.1% yn eu trefn. Mae'r bwlch rhwng dynion a menywod wedi cau ychydig o 8.5 pwynt canran yn 2018 i 6.2 pwynt canran yn 2019.
- Y rhanbarth â'r lefelau uchaf o gymryd rhan oedd y De-ddwyrain gyda 57.2% yn cymryd rhan yn 2019. Mae hyn yn gynnydd o bron i 9 pwynt canran o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r lefelau isaf o gymryd rhan yn parhau i fod yn y De-orllewin (42.2%), a dyma oedd yr achos yn 2018 hefyd.
- O'r saith celfyddyd gyfranogol, y celfyddydau gweledol a chrefftâu yw'r mwyaf poblogaidd gydag ychydig dros chwarter (28.2%) o oedolion yn cymryd rhan o leiaf unwaith y flwyddyn. Cerddoriaeth (18.4%), creu ffilm a fideo (14.2%), y celfyddydau digidol (13.1%), ac ysgrifennu creadigol (11.5%) oedd y rhai nesaf o ran y mathau mwyaf poblogaidd o gelfyddyd i gymryd rhan ynddynt.

Pa mor aml

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnwys cwestiynau yn Omnibws yr Oedolion gan Ymchwil Beufort fis Tachwedd bob blwyddyn. Caiff adroddiad llawn am y set ddata ei gyhoeddi ym mis Mai 2020.

Termau a diffiniadau

Mynychu – profi'r celfyddydau fel aelod o'r gynulleidfa.

Cymryd rhan – cymryd rhan weithredol yn y celfyddydau, megis mynychu gweithdai, dosbarthiadau neu ymarferion.

Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu ymholiadau ynglŷn â'r data yma, neu os hoffech gael eich ychwanegu at ein rhestr o ddefnyddwyr rheolaidd, cysylltwch â'n tîm ymchwil.

ymchwil@celf.cymru

Gwefan: www.celf.cymru

Manylion cyswllt

Tîm Ymchwil a Gwerthuso
Cyngor Celfyddydau Cymru

Plas Bute
Caerdydd
CF10 5AL
Ffôn: 029 2044 1375
ymchwil@celf.cymru

Y Diweddariad Nesaf

Mai 2020